Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1: **Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n** deg, yn foesegol a chynaliadwy

2: **Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy** a gwneud y cysylltiadau

3: Chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb

4: **Sicrhau ein bod yn deal** pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang

5: **Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr,** i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r nod

Martin Luther King yr leuengaf a ddywedodd: "cyn i chi orffen bwyta'ch brecwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar hanner y byd."

Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd, ein penderfyniadau a'r ffordd yr ydym yn dewis gwario ein harian ganlyniadau pellgyrhaeddol i wledydd eraill a phobl ar draws y byd. Dengys amcangyfrifon y byddai arnom angen 1.7 Daear i barhau gyda'n lefelau presennol o dwf a defnydd.

Mae'n hollbwysig ein bod, wrth feddwl am wella llesiant pobl yng Nghymru, hefyd yn meddwl am ein heffaith ar eraill. Nid defnyddwyr byd-eang yn unig ydym ni, ond dinasyddion byd-eang, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chadwyni cyflenwi moesegol , yn defnyddio ein rhan deg o adnoddau naturiol y ddaear, yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, yn gweithio i wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb, gan wneud y penderfyniadau ariannol cywir ac addysgu pobl eraill pa mor bwysig ydyw cyfrifoldeb byd-eang.

Astudiaethau achos
Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffaelwch nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol)

Darparwch gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am a deall ein heffaith yn fyd-eang
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang)

Sicrhewch fod ein cymunedau'n croesawu pawb, gan gyfrannu at lesiant cymdeithasol a diwylliannol
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 3: Cydsefyll a heddwch)

Defnyddiwch adnoddau naturiol yn ddoeth, gan gyfrannu at lesiant amgylcheddol yn fyd-eang ac yng Nghymru
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 4: Ein rhan deg o adnoddau naturiol)

Gwnewch benderfyniadau ariannol sy'n gwella llesiant economaidd yn fyd-eang ac yng Nghymru
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 5: Buddsoddi a dargyfeirio teg a moesegol)

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Bwriad y **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015 oedd brwydro yn erbyn caethwasiaeth modern yn y DU, ac mae'n cyfnerthu troseddau blaenorol sy'n berthnasol i fasnachu pobl a chaethwasiaeth. Mae gan y llywodraeth ganllawiau ar gyfer sefydliadau ar sut i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn eu busnes neu eu cadwyni cyflenwi yma.

St

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Galluogwyr

Mae'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:**

- **Pan fydd cymdeithas sifil yn cefnogi gweithredu sy'n cael effaith byd-eang cadarnhaol.**
- **Pan gytunir bod amrywiaeth yn uno cymunedau yn hytrach na'u rhannu.**
- **Pan fydd pwysigrwydd gweithredu byd-eang yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall: a heb fod yn cael ei weld fel rhywbeth syml, dymunol 'ychwanegol' at fusnes-fel-arfer.**
- **Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr eraill yn berchen ar y weledigaeth i gynorthwyo prosiectau byd-eang ac yn deall ein cyfraniad cadarnhaol ac yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol.**
- **Pan fydd yna ddealltwriaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'u perthnasedd i Gymru.**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Anallugwyr

Mae'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- **Pan fydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan fod yn gyfrifol yn fyd-eang.**
- **Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd 'gofalu am Gymru gyntaf', gan anwybyddu popeth arall.**
- **Pan na fydd mesurau neu ddangosyddion ar gael i ddisgrifio natur ymagweddau effeithiol tuag at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.**
- **Pan fydd sefydliadau ynghlwm wrth drefniadau sy'n bodoli eisoes – megis contractau caffael, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd.**
- **Pan fydd arbenigedd perthnasol mewn sefydliadau'n gyfyng ac mewn seilos.**

CARTREF

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

3: Cydsefyll a Heddwch

Chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

3. Cydsefyll a Heddwch

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r mater

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio'r newid yn yr hinsawdd fel 'un o'r risgiau mwyaf i iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain' a fydd yn effeithio fwyfwy ar reoli clefydau, mudo, cyflenwadau dŵr glân, anghydraddoldeb rhywedd ac anghydraddoldeb cymdeithasol difrifol wrth i'r sefyllfa waethygu. Mae cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn gweithredu i liniaru'r materion hyn, a thrwy gydsefyll yn croesawu ei chyfran deg o ffoaduriaid a allai fod wedi cael eu dadleoli oherwydd y newid yn yr hinsawdd neu wrthdaro. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw ffoaduriaid y newid yn yr hinsawdd yn cael eu derbyn yn gyfreithiol fel ffoaduriaid, dim ond y rhai sy'n ffoi rhag rhyfel, erledigaeth a thrais, felly mae'n hollbwysig ein bod yn deall ac yn croesawu'r rhai hynny sydd â'r mwyaf o angen ein cymorth.

Yn ôl Swyddfa Gartref y DU, mae troseddau casineb wedi dyblu ers 2012-13 a 76% o droseddau casineb a adroddir yn ymwneud â hil. Drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill o bob ffydd a chefndir, gan greu polisïau a chyflwyno strategaethau sy'n darparu cymorth a gwasanaethau digonol, a'n haddysgu am bwysigrwydd derbyn, a thrwy ddysgu o hanes, a phwysigrwydd derbyn a goddefgarwch, gallwn greu dyfodol diogel a heddychlon i bawb.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill

Taith tuag at Gymru fwy cyfartal
Pwnc 3: Cyfranogiad cyfartal

Taith tuag at Gymru o gymunedau cydlunus
Pwnc 1: Pobl sy'n weithgar yn eu cymunedau

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

3. Cydsefyll a Heddwch

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Commissioner for Wales

Gwneud **Newidiadau** Syml

Crewch bolisi ar sut mae eich sefydliad a'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw'n dysgu am, yn cynorthwyo ac yn integreiddio ffoaduriaid a chwilwyr lloches yn ein cymunedau.

ee

e.e. Gweler sut wnaeth disgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Hedley ddatblygu eu sgiliau tra'n dysgu am y materion hyn.

Cofrestrwch i fod yn gyrchfan noddfa e.e. eich swyddfa, siop, sinema, amgueddfa, pentref, ysgol, tref a dinas.

ee

e.e. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n mynd i ddod yn 'sefydliad noddfa' gan ddarparu cyngor i staff ar sut i gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

CARTREF

Ewch allan i ymweld â, neu gwahoddwch grŵp i ddod i siarad â staff ac/neu bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw am ffoaduriaid a chwilwyr lloches a deall sut y gallwch eu cynorthwyo.

ee

e.e. Oasis Caerdydd a Chanolfan Drindod yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau i gynorthwyo ffoaduriaid a chwilwyr lloches yn ardal Caerdydd.

Sicrhewch eich bod yn ymgysylltu â phob grŵp yn eich cymuned, gan groesawu ystod amrywiol o oed, rhyw, cefndiroedd a diwylliannau.

Ewch i chwilio am, cefnogi ac ennyn ymgyfraniad eich cymuned ddiaspora – cymuned o bobl sy'n byw tu allan i'w gwlad enedigol neu wlad eu tylwyth – o fewn eich gwaith a chydnabyddwch y gwerth sy'n deillio o'u presenoldeb.

Dysgwch am rôl Cymru mewn cadw heddwch byd-eang a diplomyddiaeth.

ee

e.e. Gweler sut aeth disgyblion Ysgol Dyffryn Aman ac Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ati i wneud hyn.

Eglurwch sut y daethoch yn gyrchfan noddfa, yn cynnwys eglurhad o'ch dewis, pwy yw eich partneriaid, beth a gynhwysir gan eich polisi a'ch strategaeth a'r gweithgareddau yr hoffech weld y gymuned yn cyfranogi ynddynt.

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

3. Cydsefyll a Heddwch

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gwneud **Newidiadau** Syml

Cynorthwywch ddigwyddiadau sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol tuag at heddwch a chydsefyll, o grwpiau datblygu rhyngwladol cymunedol i'r rhai hynny sy'n cael eu cynorthwyo gan Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO).

ee

e.e. **Mae'r Urdd** yn rhannu neges o heddwch ac ewyllys da bob blwyddyn, y gall pawb ymgyfrannu ynddo.

CARTREF

Defnyddiwch Ddiwrnodau Cenedlaethol a Diwrnodau Rhyngwladol i addysgu, ysbrydoli ac ennyn ymgyfraniad pobl.

ee

e.e. 20fed Mehefin yw Diwrnod Ffoaduriaid y Byd, 21ain Medi yw Diwrnod Heddwch Rhyngwladol, 10fed Rhagfyr yw Diwrnod Hawliau Dynol, 18fed Rhagfyr yw Diwrnod Mewnfudwyr y Byd.

Archwiliwch werth a phwysigrwydd dwyn y byd i Gymru ac i'r gwrthwyneb drwy weithgareddau diwylliannol, megis yr *Eisteddfod Genedlaethol a'r Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen,* chwaraeon, crefftau a chynhyrchu bwyd, iaith, theatr, sinema, cerddoriaeth a chelfyddyd.

Adolygwch yr iaith a ddefnyddir i ddarparu eich gwasanaeth a sicrhewch eu bod yn cwrdd ag anghenion eich cymuned a safonau gofynnol.

Defnyddiwch y logo 'Iaith Gwaith' ar laniardau ac mewn llofnodion e-bost staff sy'n siarad Cymraeg neu'n ddysgwyr fel y gallant hybu ein diwylliant a'r Gymraeg a chyfrannu tuag at warchod ieithoedd brodorol y Cenhedloedd Unedig a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chydnabod yn fyd-eang.

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

3. Cydsefyll a Heddwch

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Dewch yn gyrchfan noddfa, trwy weithredu eich polisïau, strategaethau a gweithgareddau cytunedig.

e.e. Amgueddfa'r Glannau Abertawe yw Amgueddfa Noddfa gyntaf Cymru.

Anogwch, cynorthwywch ac ysgogwch sefydliadau yr ydych yn gweithio gyda nhw/yn eich cymuned i ddod yn gyrchfan noddfa.

e.e. Mae Amgueddfa Stori Caerdydd yn gweithio gyda ffoaduriaid o Syria i greu gofod cymunedol ac adrodd stori Caerdydd.

CARTREF

Integreiddiwch ffoaduriaid yn eich cymuned a chynorthwywch eraill i wneud hynny. Cyhoeddwch storïau cadarnhaol am integreiddio.

e.e. Mae Cyngor Sir Gwynedd drwy eu Rhaglen Adsefydlu Syria'n cynorthwyo'r ymdrech fyd-eang i liniaru'r argyfwng dyngarol drwy ddarparu cyfleoedd adsefydlu i ffoaduriaid.

Gweithiwch gydag eraill i sicrhau bod y gymuned ddiaspora'n ymgysylltu â'r materion newydd ac yn ymgyfrannu mewn mwy o waith eich sefydliad.

e.e. Panel Cynghori is-Sahara Affrica yw'r sefydliad rhyngwladol ar gyfer y gymuned ddiaspora Affricanaidd yng Nghymru.

Sicrhewch eich bod yn dangos y cysylltiadau rhwng Cymru a'r byd, yn arbennig pan fyddwch yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol.

Pan fyddwch yn ymgysylltu â phobl, dangoswch effeithiau ymgyfraniad a pham mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud gan ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn neu astudiaethau achos.

Ymgysylltwch yn rhagweithiol gyda chymunedau o fewn eich ardal, gan fanteisio i'r eithaf ar ddathliadau crefyddol a diwylliannol a seremonïau sy'n gwella ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r byd.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Sicrhau bod yr holl gyfathrebu a gwasanaethau yn cael eu darparu yn yr iaith briodol. Gallai hyn gynnwys gallu cwblhau'r cais dinasyddiaeth Brydeinig yn Gymraeg.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Perchnogi'r **Uchelgais**

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol i berchnogi eich uchelgais

Pob ffoadur a chwilwyr lloches yn cael croeso a'u hintegreiddio i mewn i'r gymdeithas, ac yn medru byw bywydau rhydd a llawn a hyn yn cyfoethogi ffabrig Cymru.

Mae Cymru'n Genedl Noddfa.

Mae Cymru'n cael ei chydnabod am ei chyfraniad i heddwch a'i amddiffyniad.

Mae Cymru'n cael ei gweld fel cenedl gynaliadwy, fywiog gydgysylltiedig gyda mudiad diwylliannol byd-eang cyd-ddibynnol.

e.e. **Cyngor Celfyddydau Cymru** yw sefydliad cenedlaethol celfyddyd a diwylliant â ganddi lawer o enghreifftiau o weithgareddau diwylliannol rhyngwladol.

Gall pob un gyfathrebu mewn iaith o'u dewis.

Sut fedr eich sefydliad Berchnogi'r Uchelgais

Cysylltwch eich sefydliad ag un mewn gwlad arall, efallai un sy'n llai datblygedig ac ymgysylltwch â gweithgareddau cydsefyll a chynorthwyo datblygiad.

Cynorthwywch fentrau newydd yn eich cymuned, neu rai a arweinir gan eich sefydliad, i fod yn rhan o UNESCO.

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Enghreifftiau ac adnoddau eraill

- **Ymateb Llywodraeth Cymru i Genedl Noddfa**
- **Lleihad yng ngraddfeydd trosedd gydag integreiddio Mewnfudwyr**
- Mae gan **Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth** lawer o ddulliau o addysgu pobl am dderbyn pobl o bob cefndir a lleihau'r risg o hiliaeth.
- Gŵyl ffilmiau ddiwylliannol flynyddol yw **Watch Africa** sy'n dathlu diwylliannau rhyngwladol.

HOME